**Huw Lewis AC / AM**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**
**Minister for Education and Skills**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-677
Ein cyf/Our ref HL/00061/16

William Powell AM
Assembly Member for Mid & West Wales
Chair - Petitions Committee
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

senedddeisebau@assembly.wales

21 Ionawr 2016

Annwyl William

**MYNEDIAD CYFARTAL I'R IAITH GYMRAEG**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Ionawr yn ymwneud â deiseb P-04-677 Mynediad Cyfartal i'r Iaith Gymraeg oddi wrth Regigijus Šiaučlūnas.

Diolch am y cyfle i roi fy sylwadau ar y materion a godir cyn ichi ystyried y ddeiseb. Mae darpariaeth cyrsiau Cymraeg i Oedolion ar gyfer pobl o bob cefndir yn bwysig i Lywodraeth Cymru ac ystyriwyd hyn yn adroddiad y Grŵp Adolygu Cymraeg i Oedolion a gyhoeddwyd yn 2013:

*"Targedir hefyd ddysgwyr a darpar ddysgwyr o leiafrifoedd ethnig a mewnfudwyr, a gwelwyd enghreifftiau o arfer da wrth dargedu'r grwpiau hyn ac enghreifftiau nodedig o lwyddiant gan rai o'r dysgwyr. Fodd bynnag, ni thargedir y grwpiau hyn yn yr un ffordd ag y gwneir yn y maes Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE)."*

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod y tebygrwydd rhwng darpariaeth Cymraeg i Oedolion a darpariaeth SSIE ac mae darparwyr SSIE yn cael eu hannog i gynnwys peth hyfforddiant iaith Gymraeg yn eu dosbarthiadau. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod ffioedd ar gyfer cyrsiau Cymraeg i Oedolion yn cael eu pennu gan bob darparwr unigol ar hyn o bryd.

Ym Mai 2015, cyhoeddais ein bod yn sefydlu endid cenedlaethol newydd i fod yn gyfrifol am ddatblygiad strategol Cymraeg i Oedolion i'r dyfodol. Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cartrefu'r ganolfan newydd ac wrthi'n datblygu'i strategaeth ar gyfer y dyfodol.



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r heriau y bydd angen i'r ganolfan newydd fynd i'r afael â nhw yn cynnwys cynyddu nifer y dysgwyr, targedu dysgwyr newydd, ymateb i anghenion dysgwyr a pharhau ag ymdrechion i gysoni ffioedd ar draws Cymru er mwyn sicrhau'r ffi isaf posibl a thegwch i ddysgwyr.

Yn gywir

**Huw Lewis AC / AM**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills